

## Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Bronwen Williams (Cefn Berain) sydd wedi bod yn bur wael yr wythnos hon yn Ysbyty Glan Clwyd. Diolchwn i Dduw amdani a gweddiwn ei bod yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn ei hangen. Cofiw'n am ei theulu hefyd a gofynnwn Iddo gysgodi drostynt hwythau. Yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd y mae Gwenfyl Williams (Tanyfron) ac Elwy Owen (Llanefydd), ac mae Kate Davies (Llansannan) yn parhau'n yr Inffirmari. Cyflwynwn hwy ac eraill o'r Fro sydd heb fod yn dda eu hiechyd i ofal Duw a gweddiwn y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac yn eu hiachau.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Beryl Jones (Cartref Nyrsio Y Bwthyn, Yr Wyddgrug); Mrs Morfudd Williams (Dolwen, Dinbych); Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri, Dinbych); Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy, Llanellwyr); Mr Selwyn Davies (Southern House, Abergel); a Mrs Gwenfyl Jones a Mr Gwyn H. Davies (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur). Hyderwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddiâu drostynt.

## I ddod

- **CYMDEITHAS LLANSANNAN** yn mynd i Noson Ddramau yng Nghapel Bethania, Rhuthun nos Lun, Chwefror 15fed am 7.30. Enwau i Bethan (870374) erbyn **nos Sul, Chwefror 7fed** er mwyn archebu tocynnau.
- **DILLADU MERCH AR DRAWS Y BYD** Yn dilyn llwyddiant y noson yn y Ffestri yn Llansannan ym mis Tachwedd, bydd cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno i fynd i Ganolfan 'HWB' yn Ninbych bore dydd Mawrth, Chwefror 16eg o 9:30 – 12:30 i bwytho mwy o ffrogiau a siorts (patrwm syml gan ddefnyddio cas gobennydd), ac i weu tedi i'w rhoi ym mhoced y dilledyn. Dewch â chas gobennydd a thaclau gwnïo/gweu hefo chi. (Mae digon o beiriannau gwnïo yno.) Fe fydd Llinos Roberts (Cefn Meiriadog) a Dawn Wilks (Llansannan) yno i roi arweiniad i ni. Croeso i bawb o bob oed!
- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-11)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 19eg–21ain. Yma eto, mae £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Chwefror 5ed**.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Henllan nos Fercher, Mawrth 23ain am 7.30 yng nghwmni Mrs Carys Davies, Cydlynnydd Rhaglen Dorcas yn y Gogledd.
- **LLANW** – Mae'r ŵyl Gristnogol hon yn cael ei chynnal yng Nghricieth eto eleni a hynny rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 1af. Mae taflenni gwybodaeth ar gael – holwch Mair am gopi neu ewch i'r wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org)



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 7<sup>fed</sup> Chwefror 2016

Darllenid y Dydd

Salm 119: 41-48

(BCND tud.561 / BCN tud.512)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso i bob un ohonoch i'r oedfaon heddiw. Diolch i aelodau Cefn Meiriadog am eu croeso gwresog nos Sul, a heno, fe fyddwn yn mynd ymhellach yn ein golwg ar y Beibl ac yn trafod y cyfnod o'r Aifft i wlad Canaan. Mae 'na lawer yn digwydd yn y rhan yma o'r Beibl ac mae'r stori wedi bod yn destun sawl ffilm Hollywood, yn gefndir i nifer fawr o emynau Cymraeg ac yn ysbrydoliaeth i lawer cenedl ac unigolyn sy'n hiraethu am ryddid. Hon ydi stori fawr pobl Dduw yn dod yn rhydd – yn rhydd o gaethiwed yr Aifft ond hefyd yn rhydd, trwy Iesu Grist, o afael pob gormeswr. Diwedd y daith ydi gwlad yr Addewid – gwlad yn llifeirio o laeth a mêl. I'r Cristion mae hyn yn cyfateb i'r nefoedd sydd wedi ei pharatoi i ni ar ddiwedd ein taith trwy anialwch y byd yma.

Pa mor fyw ydi'r gobaith am nefoedd i ni tybed o ddydd i ddydd? Pan ro'n i'n hogyn, roedd hi'n freuddwyd gen i gael bod yn berchen bwa a saeth go iawn – un wedi ei brynu o'r siop. Roeddem ni fel criw o hogie yn gwneud sawl bwa allan o goed cyll. Torri darn go gry, ond heb fod yn rhy dew fel na fyddai'n plygu. Mynd â chylllell boced wedyn a thorri cylch ar ddau ben y coesyn er mwyn i'r cortyn beindar gael cydio, a wedyn rhwymo'r cortyn yn dynn nes roedd o'n plygu'r gollen i wneud siap bwa. Roedd cael brigau sythion i wneud saethau yr un mor bwysig â thorri mymryn ar ben y saeth i gymryd y cortyn, yn lle bod y saeth yn llithro cyn ei ollwng! Rwy'n cofio'r dydd pan gefais i fwa gwydr ffibr o siop yn y Rhyl a chael saethau go iawn, hefo pig metal a phlu a fyddai'n aros ar y saeth a mynd â'r arf peryglus yma i chwarae yn y caeau a gweld pa mor bell y byddai'r saeth yn mynd. Dwi'n siŵr fy mod wedi colli llawer o'r rhai cyntaf rheini gan iddynt hedfan mor bell nes i mi, na John Penrhwyfya, fedru dod o hyd iddynt! Wedi cael fy mreuddwyd, doedd pethau ddim yn fêl i gyd. Mae rhyw gymaint o siom ynghlwm wrth gael ein dymuniadau gan ein bod wedi colli'r elfen o edrych ymlaen a'r wefr o weithio tuag at rhyw nod.

Ond nid felly hefo'r nefoedd. Edrych ymlaen a wnawn ni i gael bod hefo'r Arglwydd ac ni fydd diwedd ar y moliant a'r llawenydd a gawn yn ei gwmmni. Nid yw'r profiad yn mynd i bylu dim – fe fydd y wlad yn llifo'n dragwyddol o fendithion a rheini yn fendithion a fydd yn ein bodloni'n llwyr. "Anfeidroldeb o bob tegwch maith yn un" ydi disgrifiad Williams o'r nefoedd (CFF 318). Mae presenoldeb Duw fel perth yn llosgi ac heb ei difa! Diolch am y Beibl sy'n disgrifio'r nefoedd i ni ac yn datguddio'r Ffordd ati hi, y Gwirionedd a'r Bywyd fydd ynddi – Iesu ei hunan!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

*Aneurin*

**Darllenid Wythnos Nesaf**

Salm 119: 97-104 (BCND tud.562 / BCN tud.514)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 7<sup>fed</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah a'r ieuencid, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher – 10<sup>fed</sup> • **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- Iau – 11<sup>eg</sup> • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 12<sup>fed</sup> • **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Sadwrn – 13<sup>eg</sup> • **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Llansannan am 7.30.
- Sul nesaf – 14<sup>eg</sup> • **Cymdeithas y Beibl ar Daith** – Cath Woolridge a chantorion Acapella SOW (Sounds of Wales), Dai Woolridge ac Arfon Jones yn Eglwys Sussex Street, Y Rhyl LL18 1SE am 7.30. Tocynnau: £5.00. Os am sicrhau tocyn, cysylltwch â Mair erbyn dydd Llun, Chwefror 8fed, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 14<sup>eg</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd y Parch. Hywel Meredydd yn pregethu, a hefyd yn sgwrsio am y gwaith y mae *Tearfund* wedi bod yn ei gyflawni yn ddiweddar.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 7<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 9<sup>fed</sup> Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15.
- Sul nesaf – 14<sup>eg</sup> Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma – 7<sup>fed</sup> Bydd Sarah yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mercher – 10<sup>fed</sup> Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Chwefror 7fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 14<sup>eg</sup> Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

## Cyhoeddiadau

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 7<sup>fed</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Mercher – 10<sup>fed</sup> Cynhelir Cyfarfod Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn yn y Groes am 7.30 yng nghwmni John Kerfoot Jones. (*Sylwch ar y newid noson*)
- Sul nesaf – 14<sup>eg</sup> Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 7<sup>fed</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith ym Mheniel am 10.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Mercher – 10<sup>fed</sup> Cynhelir Cyfarfod Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn yn y Groes am 7.30 yng nghwmni John Kerfoot Jones. (*Sylwch ar y newid noson*)
- Sul nesaf – 14<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 7<sup>fed</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Mercher – 10<sup>fed</sup> Cynhelir Cyfarfod Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn yn y Groes am 7.30 yng nghwmni John Kerfoot Jones. (*Sylwch ar y newid noson*)
- Sul nesaf – 14<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 7<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.
- Gwener – 12<sup>fed</sup> Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Chwefror 7fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 14<sup>eg</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain ac yn Llanefydd am 10.00.

### Manylion Cyswllt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07849 591163
- Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07900 308461
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.